**Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales**
**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Gwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol**
**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-2020**

**Aelodau**

Vikki Howells AC (Cadeirydd)

Suzy Davies AC

John Griffiths AC

Mike Hedges AC

Mark Isherwood AC

David J Rowlands AC

**Ysgrifenyddiaeth**

Derek Walker, Canolfan Cydweithredol Cymru
Mike Erskine, Canolfan Cydweithredol Cymru

**Cyfarfodydd, presenoldeb a chofnodion:**

I gael manylion am y rhai a oedd yn bresennol, gweler yr atodiadau isod:

Gorffennaf 2019: Banc cymunedol cydweithredol newydd i Gymru
Tachwedd 2019: Manteision tai cydweithredol a thai o dan arweiniad y gymuned

**Tryloywder**

Roedd pob cyfarfod yn agored i'r cyhoedd. Cafodd pob cyfarfod ei hysbysebu i'r cyhoedd.

**Lobïwyr**

Nid yw'r grŵp wedi cyfarfod gydag unrhyw lobïwyr yn ystod y cyfnod hwn, ar wahân i'r ysgrifenyddiaeth.

**Cyfrifon ar gyfer y cyfnod**

Incwm

Cyfraniad gan Ganolfan Cydweithredol Cymru / Co-operatives UK £483.27

Cyfanswm Incwm £483.27

Gwariant

02/07/2019: Ysgrifenyddiaeth

Cyfieithu'r gwahoddiad: £24.02
Arlwyo: £195.80

27/11/2019: Ysgrifenyddiaeth

Cyfieithu'r gwahoddiad: £17.00
Arlwyo: £246.45

Cyfanswm gwariant (heb gynnwys TAW): £483.27

**Mae'r adroddiad yn parhau ar y dudalen nesaf**

**Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Gwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol, 2 Gorffennaf 2019, Ystafell Briffio'r Cyfryngau, 12-13:30**

**Banc cymunedol cydweithredol newydd i Gymru**

Yn bresennol

Ibrahim Ali, Swyddfa Suzy Davies AC

Mick Antoniw, Aelod Cynulliad dros Bontypridd

Alex Bird, consultancy.coop

Brian Carroll, Ffoton

John Chown, Williams Ross Limited

Hefin David AC, Aelod Cynulliad dros Gaerffili

Lara Date, tîm Pwyllgor EIS

Gethin Edwards, Comisinydd y Gymraeg

Mike Erskine, Canolfan Cydweithredol Cymru

Richard Essex, Rhwydwaith Ymarferwyr Adfywio CREW

Nicola Field, Undeb Credyd Bridgend LifeSavers

Tony Greenham, South West Mutual

Leanne Herberg, Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro

Adam Hitchings, y Gronfa Dreftadaeth Bensaernïol

Mark Hooper, IndyCube

Vikki Howells, Aelod Cynulliad dros Gwm Cynon

Marcus Iles, ABCUL

Huw Irranca-Davies, Aelod Cynulliad dros Ogwr

Edward Jones, Prifysgol Bangor

Geraint Jones, ABCUL

Mike Payne, GMB

Jamie Pike, Cymdeithas Adeiladu Principality

Socrates Siskos, IndyCube

Ben Stokes, Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru

John Waters, Banc Cymunedol Robert Owen

Karen Wilkie, y Blaid Gydweithredol

Alex Williams, Swyddfa Russell George AC

David Williams, Undeb Credyd Gateway

Sara Wollatt, Swyddfa Archwilio Cymru

Agenda

- Cyflwyniadau - Vikki Howells AC
- Datblygu banc cymunedol cydweithredol yng Nghymru, Derek Walker a Mark Hooper, Banc Cambria
- Dysgu gan South West Mutual, Tony Greenham, Cyfarwyddwr Gweithredol, South West Mutual

Cofnodion y cyfarfod

- Agorodd Vikki Howells y cyfarfod drwy groesawu siaradwyr a myfyrio ar ymchwiliad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau i Fynediad at Fancio.
- Eglurodd Mark Hooper fod Banc Cambria wedi cael ei ddatblygu yng nghyd-destun banciau'n cau. Mae banciau'n cau canghennau'r stryd fawr er bod tri o bob deg o bobl yn dal i ddefnyddio canghennau banc. Mae cau canghennau yn cael effaith negyddol ar economïau lleol, er enghraifft, mae angen i fusnesau gau'n gynnar i deithio i'w cangen agosaf i fancio eu harian.
- Eglurodd Mark Hooper y broses ar gyfer sefydlu banc cymunedol cydweithredol. Mae gan y Gymdeithas Banciau Cynilo Cymunedol fodel banc mewn blwch sydd wedi gwneud llawer o'r gwaith paratoi. Nod Banc Cambria yw cael trwydded a mynd ati'n gyflym i ddechrau gweithredu.
- Dadleuodd Mark Hooper fod banciau cymunedol yn rhan o'r un mudiad ag undebau credyd
- Eglurodd Derek Walker fod gwerthoedd wrth wraidd y syniad o fanc cymunedol. Mae banciau cymunedol yn rhan o'r un mudiad ag undebau credyd, a gallant gydweithio. Bydd y banc yn endid annibynnol.
- Soniodd Tony Greenham am ei ymchwil gyda RSA. Mae diffyg amrywiaeth yn y sector bancio yn y DU, a diffyg banciau cydfuddiannol rhanbarthol o gymharu â gwledydd eraill. Y DU sydd â'r lefel uchaf o anghydraddoldeb rhwng rhanbarthau, a hynny i raddau o ganlyniad i ddiffyg sefydliadau ariannol rhanbarthol. Eglurodd fanteision y model. Mae'r rhain yn cynnwys rhoi cyllid i BBaChau – mae gan ganghennau lleol ddealltwriaeth well o'r amgylchiadau lleol ac maent yn fwy tebygol o fenthyca i BBaChau. Maent yn

cefnogi'r economi go iawn tra bod banciau mawr yn tueddi i ganolbwyntio ar fasnachu ariannol a hapfuddsoddi.  Cynyddodd banciau cydweithredol yn yr Almaen eu benthyca yn ystod y dirwasgiad, ond ym Mhrydain cafwyd lleihad mewn benthyca.  Maent hefyd yn benthyca mewn ffordd gyfrifol; er enghraifft, nid ydynt yn buddsoddi mewn diwydiannau tanwydd ffosil.

Trafodaethau

- Gofynnodd Hefin David AC pwy fyddai'n talu'r costau uchel ar gyfer sefydlu'r banc.  Eglurodd Tony Greenham sut mae South West Mutual wedi codi arian gan awdurdodau lleol.  Yn y tymor hir, gallant gael enillion o 6 y cant o'r buddsoddiad hwn.  Bydd ennill trwydded bancio yn lleihau'r risg hon ymhellach.
- Gofynnodd Geraint Jones am y berthynas ag undebau credyd ac a fydd asesiad risg o'r effaith ar y mudiad undebau credyd. Amlinellodd Derek Walker sut mae cynlluniau ar gyfer y banc yn dal i fod yn y camau cynnar.  Mae aelodau Banc Cambria wedi cyfarfod â Fforwm Undebau Credyd Cymru Gyfan.  Mae Undebau Credyd hefyd yn ymwneud â'r Grŵp Gweithredu ar gyfer Banc Cyhoeddus i Gymru.  Dadleuodd Mark Hooper hefyd nad yw banciau ar y stryd fawr yn gwasanaethu cymunedau'n ddigonol, ac na fyddai llenwi'r bwlch hwnnw'n disodli undebau credyd.  Bydd y banc hefyd yn ceisio rhannu lleoliadau gydag undebau credyd, er enghraifft, drwy gynnig gwasanaethau mewn canghennau undebau credyd.
- Gofynnodd David Smith am berchnogaeth a sut y bydd y banc yn ymgysylltu ag aelodau mewn modd ystyrlon.  Nododd Derek Walker fod 80 aelod sefydlu ond nad yw'n bosibl hyrwyddo aelodaeth i'r cyhoedd eto.
- Gofynnodd Leanne Herberg a fydd y banc yn darparu benthyciadau.  Dywedodd Mark Hooper y bydd y banc yn darparu benthyciadau personol ond ar gyfradd wahanol i undebau credyd.  Yn wahanol i undebau credyd unigol, bydd gan y banc gynulleidfa ledled Cymru hefyd.  Dywedodd Tony Greenham fod gan undebau credyd gyfyngiadau o ran y math o fenthyciadau y gallant eu cynnig a'u maint.  Mae ganddynt gwsmeriaid gwahanol a system reoleiddio wahanol.
- Gofynnodd Gethin Edwards a fydd gwasanaethau'n cael eu darparu'n ddwyieithog, gan gynnwys ar apiau ar-lein.  Atebodd Mark Hooper y byddai'r gwasanaethau'n gwbl ddwyieithog, gan gynnwys trwy ap.
- Gofynnodd Mike Payne am ymgysylltu ag Undebau ac a ellid annog aelodau i fuddsoddi ac ymgysylltu.  Dywedodd Derek Walker nad oedd y banc wedi ymgysylltu ag undebau llafur eto gan fod y broses o greu'r banc yn ei gamau cynnar, ond bod cynlluniau i wneud hyn.

**Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Gwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol, 27 Tachwedd 2019**

**Ystafell Gynadledda C a D, Tŷ Hywel, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Yn bresennol**

Vikki Howells, Aelod Cynulliad dros Gwm Cynon (Cadeirydd)

Louisa Addiscott, Partneriaeth Adfywio Ynysybwl

Ian Bailey, Principality Masnachol

Matthew Brindley, Gofal a Thrwsio Cymru

Robert Chapman, RC2 Property & Regenerations

John Chown, Canolfan Cydweithredol Cymru

Casey Edwards, Cymunedau'n Creu Cartrefi

Mike Erskine, Canolfan Cydweithredol Cymru

Richard Essex, Ymarferwyr Adfywio Cymru

Marc Evans, Swyddfa Neil McEvoy AC

Ceri-Anne Fidler, Canolfan Cydweithredol Cymru

Kevin Fortey, Partneriaeth Ranbarthol Gwent/Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Emma Hammonds, Bron Afon

Adam Hitchings, y Gronfa Dreftadaeth Bensaernïol

Kevin Howell, Linc Cymru

Katie Howells, Cartrefi Cymoedd Merthyr

Rhys Humphries

Huw Irranca-Davies, Aelod Cynulliad dros Ogwr

David James, Cymdeithas Tai Sir Fynwy

Trystan Jones, The Community Impact Initiative

Helen Lloyd, Hayes Point RTM Co Ltd.

Jocelle Lovell, Cymunedau'n Creu Cartrefi

Sandra Lovell, Swansea Co-Housing

Elaine Milford, Hayes Point Collective

David Palmer, Canolfan Cydweithredol Cymru

Barbara Parkinson, Clever Elephant

Leonie Redmont, RSA/Swansea Co-Housing

Lara Ramsay, Canolfan Cydweithredol Cymru

Michelle Reid, Cartrefi Cymoedd Merthyr

Meilys Heulfryn, Rhanbarth Gogledd Orllewin Cymru

Mark Stephens, Cyngor Tref Cydweli

Tamsin Stirling, Tamsin Stirling Associates

William Stoker, Hayes Point Collective Freehold Ltd.

Lea Trainer, Cymuned Brithdir Mawr

Claire White, Cymunedau'n Creu Cartrefi

Karen Wilkie, y Blaid Gydweithredol

**Cofnodion y drafodaeth**

- Barbara Parkinson, ymchwilydd yn Clever Elephant
  Gweithiodd Barbara ar gynhyrchu'r adroddiad "Asesu buddion posibl byw mewn tai cydweithredol a/neu dai dan arweiniad y gymuned (TCAG)". Mae'r adroddiad ar gael ar wefan Canolfan Cydweithredol Cymru. Roedd y buddion i breswylwyr yn cynnwys lles ac iechyd meddwl gwell, llai o deimlad o fod wedi'u hynysu, a mwy o sgiliau. Roedd y buddion a nodwyd gan ddarparwyr yn cynnwys gosod eiddo'n haws a llai o ôl-ddyledion rhent. Amlygodd mai dim ond y cam cyntaf yw'r adroddiad ymchwil yn y broses o ddatblygu dealltwriaeth well o fuddion tai cydweithredol a thai dan arweiniad y gymuned.
- Mae Lea Trainer yn byw yng Nghydweithrediaeth Dai Brithdir Mawr.
  Soniodd Lea am sut roedd byw ym Mrithdir Mawr wedi newid ei fywyd ef a'i deulu. Nododd fod ganddo fwy o amser gyda'i deulu, cyfleoedd i ddysgu sgiliau newydd a mwy o hunanhyder. Dywedodd Lea hefyd wrth y Grŵp fod byw mewn cydweithrediaeth dai wedi gwella ei iechyd meddwl a chorfforol tra hefyd yn lleihau teimladau o fod wedi'i ynysu a'i ddatgysylltu.
- Katie Howells, Swyddog Prosiect Strategol, Cartrefi Cymoedd Merthyr.
  Cefnogodd Katie ddatblygiad Cydweithrediaeth Dai Gelli Deg. Dywedodd wrth y Grŵp y bu'n rhaid i bawb a fu'n rhan o'r gydweithrediaeth ddysgu

llawer yn gyflym iawn wrth datblygu'r fenter, ond bod mwy o fuddion nag o heriau.

- Casey Edwards, Cymunedau'n Creu Cartrefi, Canolfan Cydweithredol Cymru. Eglurodd Casey mai nod y prosiect yw creu sector tai cydweithredol a thai dan arweiniad y gymuned yng Nghymru sy'n ffynnu. Esboniodd y gefnogaeth a gynigir gan y prosiect. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar dudalennau gwe'r prosiect.

**Cwestiynau**

- Trafododd preswylwyr Hayes Point y problemau maent yn eu hwynebu wrth gymryd llesddaliad eu heiddo fel cydweithrediaeth. Nododd y preswylwyr mai ychydig iawn o gefnogaeth sydd ar gael, er enghraifft drwy gynllun gwarantu benthyciad.
- Gofynnodd y rhai oedd yn bresennol am enghreifftiau o gynlluniau iechyd a gofal cymdeithasol. Tynnwyd sylw at waith i ddatblygu cyd-drigfan ym Mhowys ochr yn ochr â chynlluniau posibl a ariennir gan Gronfa Her yr Economi Sylfaenol.
- Cwestiynau ynglŷn â phroblemau neu ffactorau negyddol sy'n gysylltiedig â datblygu cynllun cydweithredol neu gynllun dan arweiniad y gymuned. Nododd y panel fod angen datblygu cynlluniau ar sail consensws a bod hyn yn gallu cymryd amser. Mae angen cefnogaeth ar bobl newydd i ddeall nodau a gweledigaethau. Mae'n cymryd amser i bobl ddysgu cydweithio a chyd-fyw.